**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Y Cyflog Byw: Cwestiynau ac Atebion

Tachwedd 2013

Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil yn darparu ymchwil a gwybodaeth arbenigol a ddiduedd er mwyn cefnogi Aelodau a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflawni swyddogaethau craffu, deddfwriaethol a chynrychioliadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn: www.cynulliadcymru.org/research

Mae copïau printiedig hefyd ar gael:

Y Gwasanaeth Ymchwil
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: Research.Service@wales.gov.uk
Twitter: @YmchwilCCC
Blog: pigion.wordpress.com

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 13/3051
Rhif dogfen:13/2679

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Papur ymchwil

# Y Cyflog Byw: Cwestiynau ac Atebion

Tachwedd 2013

Robin Wilkinson

Bwriedir i'r Cyflog Byw adlewyrchu faint o arian sydd ei angen ar unigolyn i fyw bywyd boddhaol. Mae'n wahanol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol oherwydd mai mesur gwirfoddol yw hwn y bydd cyflogwyr yn dewis ymrwymo iddo, yn hytrach na rhywbeth a orfodir o dan y gyfraith. Er bod llawer yn cytuno â'r Cyflog Byw mewn egwyddor, bydd sylwebwyr yn anghytuno ynglŷn ag i ba raddau y gellid neu y dylid ei ehangu. Mae'r papur hwn yn ateb cwestiynau pwysig y gall pobl fod yn dymuno'u gofyn am y Cyflog Byw, gan gynnwys sut mae'n cael ei gyfrifo, pwy sy'n ei dalu, a beth mae pobl wedi ceisio'i wneud er mwyn annog cyflogwyr i'w dalu.

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

## Cynnwys

1. **Cyflwyniad** ..... 1
2. **Beth yw'r Cyflog Byw?** ..... 2
3. **Sut mae'r Cyflog Byw yn cael ei gyfrifo?** ..... 3
4. **Pwy sy'n talu'r Cyflog Byw yng Nghymru?** ..... 4
5. **Faint y gall cyflogwyr ddisgwyl i'w bil cyflogau godi os byddant yn ymrwymo i'r Cyflog Byw?** ..... 5
6. **Faint o bobl yng Nghymru sydd ar gyflog is na'r Cyflog Byw?** ..... 6
7. **Faint y gallai'r Trysorlys ei arbed pe bai cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw** ..... 7
8. **Beth yw manteision bod yn gyflogwr Cyflog Byw?** ..... 8
9. **Sut y mae rhanddeiliaid wedi ymateb i'r ddadl ynglŷn â'r Cyflog Byw?** ..... 9
10. **Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Cyflog Byw?** ..... 10
11. **Pa bwerau sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â'r Cyflog Byw?** ..... 11
13. **Beth yw'r sefyllfa yn yr Alban?** ..... 13
14. **Beth mae gwleidyddion San Steffan wedi'i ddweud am y Cyflog Byw?** ..... 14
    - 14.1. Safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig ..... 14
    - 14.2. Safbwynt yr wrthblaid ..... 14
15. **Beth sy'n digwydd yng Nghaerefrog?** ..... 16
16. **A oes modd defnyddio polisi caffael cyhoeddus i annog pobl i ymrwymo i'r Cyflog Byw?** ..... 17
17. **Beth yw'r sefyllfa yn yr Unol Daleithiau?** ..... 18

# Y Cyflog Byw: Cwestiynau ac Atebion

## 2. Cyflwyniad

Bwriedir i'r Cyflog Byw adlewyrchu faint o arian sydd ei angen ar unigolyn i fyw bywyd boddhaol. Mae'n wahanol i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol oherwydd mai mesur gwirfoddol yw hwn y bydd cyflogwyr yn dewis ymrwymo iddo, yn hytrach na rhywbeth a orfodir dan y gyfraith. Mae gwahaniaeth barn ymhlith y bobl sy'n cefnogi'r Cyflog Byw ynghylch sut y dylid ei roi ar waith ar raddfa ehangach - a ddylid gadael iddo fod yn beth cwbl wirfoddol, ynteu a ddylid pwyso'n drymach ar gyflogwyr (er enghraifft, defnyddio'r system gaffael gyhoeddus) i'w hannog i dalu'r Cyflog Byw i weithwyr. Mae rhai sylwebwyr, gan gynnwys cynrychiolwyr busnes, wedi dadlau y gallai talu'r Cyflog Byw i staff gyfyngu ar nifer y swyddi sydd ar gael, oherwydd y costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth dalu i staff, neu nad yw hyn mewn gwirionedd yn hyfyw yn yr hinsawdd economaidd wan bresennol. Mae eraill yn dadlau bod y gwasgu ar yr incwm blynyddol y pen er 2008 (oherwydd effaith gyfun y dirwasgiad, diweithdra uchel, lefelau cyflogau'n sefyll yn llonydd a chwyddiant uchel) yn golygu bod y Cyflog Byw yn arbennig o bwysig ar hyn o bryd.

## 3. Beth yw'r Cyflog Byw?

Mae pobl wedi bod yn sôn am "gyflog byw" er diwedd y 19eg ganrif o leiaf. Yn 1912, dywedodd CC Cotterill yn ei lyfr *A Living Wage: A National Necessity*: "A living wage is that which is sufficient to enable those who receive it and those dependent on them to lead vigorous, full human lives".

Yn yr 21ain ganrif, mae cynghrair o grwpiau sy'n ymdrefnu yn y gymuned sef **Citizens UK**, wedi gafael yn y syniad, gan sefydlu'r **Sefydliad Cyflog Byw** yn 2011. Bydd Cyflog Byw y Deyrnas Unedig yn cael ei gyfrifo bob blwyddyn gan academwyr ym Mhrifysgol Loughborough ac **ar hyn o bryd mae'n £7.65 yr awr**. Bydd y Sefydliad Cyflog Byw yn annog sefydliadau i dalu'r Cyflog Byw i'w staff ac yn achredu'r rhai sy'n gwneud hynny.

Ar hyn o bryd **£6.31 yw'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol**.[1] Y **Comisiwn Cyflogau Isel** sy'n argymell newidiadau i'r Lleiafswm Cyflog.

Pennir **Cyflog Byw** ar wahân i **Lundain,** sy'n adlewyrchu'r ffaith bod costau byw'n uwch ym mhrifddinas y Deyrnas Unedig. Fe'i pennir bob blwyddyn gan **Awdurdod Llundain Fwyaf** ac mae'n cynnwys yr holl fwrdeistrefi yn Llundain Fwyaf. **Ar hyn o bryd, £8.80 yr awr yw Cyflog Byw Llundain.**

Pennwyd y cyfraddau hyn (ar gyfer y Cyflog Byw yn Llundain a gweddill y DU) ym mis Tachwedd 2013, ac yn gyffredinol cânt eu diwygio ym mis Tachwedd bob blwyddyn

[1] Adran Gwaith a Phensiynau y Deyrnas Unedig, **Cyfraddau'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol** [Fel ar 21 Hydref 2013]

## 4. Sut mae'r Cyflog Byw yn cael ei gyfrifo?

Bydd Cyflog Byw y Deyrnas Unedig yn cael ei gyfrifo bob blwyddyn gan Ganolfan Ymchwil  Polisi Cymdeithasol Prifysgol Loughborough (bydd Cyflog Byw Llundain yn cael ei bennu ar wahân gan Awdurdod Llundain Fwyaf).

Wrth gyfrifo'r gyfradd, defnyddir Safon Isafswm Incwm y Deyrnas Unedig, sef cynnyrch ymchwil y Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol a noddir gan Sefydliad Joseph Rowntree.[2] Mae'r ymchwil yn edrych yn fanwl ar beth sydd ei angen ar aelwydydd er mwyn iddynt gael safon byw dderbyniol.  Bydd grwpiau sy'n cynnwys aelodau'r cyhoedd yn penderfynu beth y dylid ei gynnwys yn y safon hon.

Wrth uwchraddio ffigur y Cyflog Byw bob blwyddyn, ystyrir y cynnydd mewn costau byw ac unrhyw newidiadau yn yr hyn y bydd pobl yn ei ddiffinio'n safon dderbyniol ‘sylfaenol’. Mae hefyd yn ystyried, i ryw raddau, yr hyn sy'n digwydd i gyflogau'n gyffredinol, er mwyn osgoi sefyllfa lle bydd gofyn i gyflogwyr Cyflog Byw dalu codiadau cyflog sy'n wahanol iawn i'r tueddiadau cyffredinol ym maes cyflogau.

Oherwydd y cyfyngu hwn, pennwyd mai Cyflog Byw 2013 fyddai £7.65 (y cynnydd mwyaf posibl, o dan y dull a ddefnyddir gan y Ganolfan Ymchwil, ar ffigur y llynedd, sef £7.45), er bod y Ganolfan wedi cyfrifo bod angen cyflog o £9.08 mewn gwirionedd i dalu costau byw sylfaenol. Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn yw’r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn mynd drwy gyfnod hir lle mae'r cynnydd cyfartalog mewn cyflogau yn is na’r cynnydd mewn costau byw.

Ceir cyfrif manwl o sut y mae'r Cyflog Byw'n cael ei bennu yn nogfen y Ganolfan Ymchwil **Uprating the out of London Living Wage in 2013**.

---

[2] Y Ganolfan Ymchwil Polisi Cymdeithasol, **Adroddiadau am y Safon Isafswm Incwm** (Saesneg yn unig) [Fel ar 9 Hydref 2013]

## 5. Pwy sy'n talu'r Cyflog Byw yng Nghymru?

Rhestrir y cyflogwyr sy'n talu'r Cyflog Byw ac sy'n cael eu hachredu gan y Sefydliad Cyflog Byw ar **wefan** y Sefydliad Cyflog Byw. Dyma'r cyflogwyr a restrir ac sydd wedi'u hachredu yng Nghymru:

- Grŵp Buddiant Cymunedol Barod
- Nu Instruments Limited
- Castell Homes Limited
- Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro
- Cymdeithas Tai Taf
- Oxford Scientific Films
- Gwasanaethau Cynnal a Chadw Cambria
- Cynnal Cymru - Sustain Wales
- Cwmni Hyfforddi Cambria
- Cymdeithas Tai Taf
- Tai Cymru a'r Gorllewin
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Ecigarette Direct: The Smoker's Angel
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Chwarae Teg / Fairplay Workforce
- Gweithredu yng Nghaerau a Threlái


Er bod Cyngor Caerdydd wedi cyhoeddi ei fwriad o **ddod yn gyflogwr Cyflog Byw** ym mis Gorffennaf 2012, nid yw wedi'i achredu'n gyflogwr Cyflog Byw eto gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Mae gwefan y Sefydliad Cyflog Byw hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ba gyfrannau o'r rhai sydd wedi'u hachredu'n gyflogwyr Cyflog Byw sy'n dod o ba sectorau a pha ddiwydiannau.

## 6. Faint y gall cyflogwyr ddisgwyl i'w bil cyflogau godi os byddant yn ymrwymo i'r Cyflog Byw?

Bydd y newid ym mil cyflogau cwmni wrth iddo gyflwyno'r Cyflog Byw yn amlwg yn dibynnu ar faint o staff y mae'n ei dalu ar hyn o bryd ar gyfradd sy'n is na'r Cyflog Byw. Mae'r adroddiad *What Price a Living Wage?*, a gyhoeddwyd ar y cyd gan felinau trafod Resolution Foundation ac IPPR ym mis Mai 2012, yn dadansoddi'r effaith debygol ar wahanol fathau o gyflogwyr yn sgil cyflwyno'r Cyflog Byw.

**Ffigur 2. Y cynnydd cyfartalog ym mil cyflogau cwmnïau yn ôl sector diwydiannol, pe bai'r cwmnïau hynny'n cyflwyno'r Cyflog Byw**




Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r cwmnïau corfforedig yn y Deyrnas Unedig sydd wedi'u rhestru ar Gyfnewidfa Stoc Llundain, Resolution Foundation ac IPPR, **What Price a Living Wage?**

Mae'r siart hwn yn dangos y byddai effaith debygol mabwysiadu'r Cyflog Byw ar fil cyflogau cyfartalog cwmni'n amrywio'n sylweddol, yn dibynnu ar ba sector y mae'r cwmni'n perthyn iddo. Gall cwmnïau yn y sector bariau a bwytai ddisgwyl i'w biliau cyflogau gynyddu 6.2 y cant, ond dim ond cynnydd o 0.2 y cant y byddai cwmnïau yn y sector bancio'n debygol o'i weld yn eu bil cyflogau hwythau pe baent yn cyflwyno'r Cyflog Byw.

## 7. Faint o bobl yng Nghymru sydd ar gyflog is na'r Cyflog Byw?

Yn 2013, cyhoeddodd KPMG ymchwil a oedd yn edrych ar batrymau cyflogaeth presennol a'r Cyflog Byw.[3] Yn yr ymchwil hwn, dadansoddwyd pa gyfran o'r gweithwyr yng ngwahanol ranbarthau'r Deyrnas Unedig a oedd yn ennill llai na'r Cyflog Byw. **Cymru oedd y rhanbarth â'r gyfran ail fwyaf o weithwyr a oedd yn ennill llai na'r Cyflog Byw, sef 25 y cant** (yng Ngogledd Iwerddon yr oedd y gyfran fwyaf, sef 26 y cant). Mae hyn 2 bwynt canran yn uwch na'r ffigur ar gyfer y llynedd, sef 23 y cant.

**Tabl 1: Rhanbarthau yn ôl nifer a chyfran yr enillwyr sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw**

| Rhanbarth | Nifer yr enillwyr (miloedd) | Nifer yr enillwyr (miloedd) | Cyflog cymedrig (£) | Nifer y bobl sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw (miloedd) | % y bobl sy'n enill llai na'r Cyflog Byw |
|---|---|---|---|---|---|
| Gogledd Iwerddon | 769 | 10.08 | 12.98 | 197 | 26 |
| **Cymru** | **1,086** | **10.08** | **12.77** | **266** | **25** |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 1,707 | 10.24 | 13.26 | 409 | 24 |
| Swydd Efrog a Humber | 2,009 | 10.37 | 13.34 | 477 | 24 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 2,146 | 10.45 | 13.47 | 502 | 23 |
| Gogledd-Ddwyrain Lloegr | 946 | 10.36 | 13.17 | 221 | 23 |
| De-Orllewin Lloegr | 2,100 | 10.42 | 13.42 | 479 | 23 |
| Gogledd-Orllewin Lloegr | 2,630 | 10.51 | 13.59 | 600 | 23 |
| Dwyrain Lloegr | 2,250 | 10.85 | 13.98 | 497 | 22 |
| Yr Alban | 2,176 | 11.13 | 14.22 | 435 | 20 |
| De-Ddwyrain Lloegr | 3,238 | 12.10 | 15.67 | 567 | 18 |
| Llundain | 3,532 | 15.74 | 20.36 | 586 | 17 |
| Cyfanswm: y DU | 24,588 | 11.26 | 14.82 | 5,237 | 21 |

Ffynhonnell: KPMG, Living Wage research for KPMG 2013, gan ddefnyddio amcangyfrifon a gynhyrchwyd gan Markit Economics Limited, Tachwedd 2013

[3] KPMG, Number of workers paid less than the Living Wage passes 5 million, Tachwedd 2013 [Fel ar 3 Tachwedd 2013]

## 8. Faint y gallai'r Trysorlys ei arbed pe bai cyflogwyr yn talu'r Cyflog Byw

Mae'r melinau trafod, y Resolution Foundation a'r IPPR wedi cyhoeddi ymchwil yn awgrymu y **gallai'r Trysorlys arbed £2.2 biliwn y flwyddyn pe bai'r Cyflog Byw yn cael ei dalu'n gyffredinol.** Y rheswm dros hynny fyddai'r cynnydd mewn taliadau treth incwm a chyfraniadau yswiriant gwladol a'r gostyngiad yn y gwariant ar fudd-daliadau a chredydau treth, a hynny ar ôl ystyried y cynnydd yng nghost cyflogau gweithwyr yn y sector cyhoeddus sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw ar hyn o bryd. [4] Dylid nodi bod hyn wedi'i seilio ar yr amcangyfrifon uchaf, gan nad yw'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn ystyried yr effeithiau posibl ar gyflogaeth, elw na phrisiau.

[4] Resolution Foundation and IPPR, Beyond the bottom line: The challenges and opportunities of a living wage, Ionawr 2013 [Fel ar 12 Tachwedd 2013]

## 9. Beth yw manteision bod yn gyflogwr Cyflog Byw?

Mae rhai wedi dadlau, er bod talu Cyflog Byw fel rheol yn golygu bil cyflogau uwch, ei fod hefyd yn cynnig nifer o fanteision ychwanegol i'r cyflogwr. Yn 2009, aeth London Economics ati i asesu'r effaith ar gyflogwyr wrth iddynt dalu Cyflog Byw Llundain. Yn ôl yr asesiad, dyma rai o'r manteision i'r cyflogwyr:

- Llai o drosiant staff (felly llai o gostau recriwtio a hyfforddiant sefydlu);
- Llai o weithwyr yn absennol a chyfraddau is o absenoldeb oherwydd salwch;
- Cynnydd o ran ymdrech a chynhyrchiant gweithwyr;
- Gwella'u henw da;

Hefyd, dywedwyd nad oedd effaith sylweddol ar berfformiad y busnes nac ychwaith ar ddadgyflogi (h.y. nid oeddent yn cyflogi llai oherwydd bod y biliau cyflog yn uwch ar gyfartaledd).

Fodd bynnag, dylid nodi bod yr astudiaeth hon wedi'i seilio ar samplau cymharol fach o gyflogwyr a gweithwyr. Mae crynodeb hwylus o'r astudiaethau sy'n edrych ar effaith polisïau Cyflog Byw - yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill (yn yr Unol Daleithiau'n bennaf) - ar gael mewn dogfen a gyhoeddwyd gan Brifysgol Abertawe ar ran Llywodraeth Cymru, **Living Wage in Wales: Exploratory Study** (2010).

## 10. Sut y mae rhanddeiliaid wedi ymateb i'r ddadl ynglŷn â'r Cyflog Byw?

**Mae cynrychiolwyr byd busnes** (megis Siambrau Masnach Prydain, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a'r Ffederasiwn Busnesau Bach) wedi croesawu'r ffaith bod rhai busnesau'n dewis talu'r Cyflog Byw, ond yn dweud na ddylid gorfodi penderfyniad o'r fath ar gwmnïau. Barn Siambr Fasnach Prydain oedd: os byddwch yn gorfodi neu hyd yn oed yn pwyso ar fusnesau i dalu cyfraddau uwch na chyfraddau'r farchnad, maes o law, bydd gennych economi sy'n llai cystadleuol.[5] Soniodd y Ffederasiwn Busnesau Bach am y cyfyngiadau allanol - megis y galw economaidd gwan - sy'n atal cwmnïau rhag talu mwy i'w staff.[6]

Mae **undebau llafur** (megis UNSAIN a Chyngres yr Undebau Llafur) wedi cefnogi'r mudiad Cyflog Byw, gan alw ar ragor o gyflogwyr i ymrwymo iddo. Dywedodd y Gyngres y dylai rhagor o gyflogwyr dalu'r Cyflog Byw ac nad yw'n ddigon da bod cwmnïau mawr yn honni eu bod yn dlawd a'u cronfeydd wrth gefn yn cynyddu.

---

[5] Financial Times, **Business chiefs warn over Living Wage costs**, 5 Tachwedd 2012 [Fel ar 9 Hydref 2013]
[6] Ffederasiwn Busnesau Bach, **Datganiad i'r wasg, Living Wage Week**, 5 Tachwedd 2013 [Fel ar 9 Hydref 2013]

## 11. Beth yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Cyflog Byw?

Yn ei maniffesto yn 2011, addawodd Llafur Cymru y byddai'n:

> Gweithio gydag undebau llafur, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i archwilio ffyrdd o sicrhau cyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru, o ystyried bod cyflog isel yn broblem sylweddol i lawer o deuluoedd a bod heriau tlodi mewn gwaith yn parhau.[7]

Mae hyn wedi'i gynnwys yn un o ymrwymiadau'r Llywodraeth yn yr atodiad i'r diweddariad i'r Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2013.[8]

Mewn Datganiad Cabinet ym mis Tachwedd 2012, dywedodd Llywodraeth Cymru: **"Adlewyrcha hyn ddyhead Llywodraeth Cymru i barhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw. Mae'n dangos hefyd maint ei hymrwymiad i arwain ac annog cyflogwyr eraill yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn ogystal â'r trydydd sector, i ystyried dod yn gyflogwyr Cyflog Byw"** (er nad yw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd ar y rhestr cyflogwyr Cyflog Byw achrededig ar wefan y Sefydliad Cyflog Byw; er mwyn cael ei achredu, rhaid i'r cyflogwr ddilyn rhagor o brosesau ac ymrwymo i wneud mwy na dim ond talu'r Cyflog Byw)[9].

Ym mis Mai 2012, cyhoeddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y pryd y byddai grŵp yn cael ei gynnull - a fyddai'n cynnwys y CBI, Sefydliad Joseph Rowntree, TUC Cymru ac Achub y Plant - i ymchwilio i'r mater Cyflog Byw yng Nghymru.[10] Roedd trafodaethau'r grŵp hwn wedyn yn sail i Ddatganiad y Cabinet ym mis Tachwedd 2012 (a grybwyllwyd uchod), a gyhoeddwyd yn ystod Wythnos Cyflog Byw 2012.

Mae Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad wrthi'n ystyried deiseb gan Achub y Plant Cymru sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i "i gadw at ei haddewid i weithio tuag at gyflog byw i bob gweithiwr yng Nghymru a dweud wrthym pryd a sut y bydd yn gwneud i hyn ddigwydd". Ym mis Medi 2013, esboniodd Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth y sefyllfa ddiweddaraf i'r Pwyllgor.[11] Roedd y llythyr hwn yn dweud: "following a recent Cabinet discussion the First Minister has now placed the subject of the Living Wage within the remit of the Workforce Partnership Council *(a forum of representatives of the devolved public service employers and trade unions)".*

---

[7] Llafur Cymru, Polisïau ac Ymgyrchoedd, Sefyll Cornel Gymru, [Fel ar 29 Hydref 2013]
[8] Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu Atodiad cyflawn, Mehefin 2013 [Fel ar 23 Hydref 2013]
[9] Llywodraeth Cymru, Datganiad y Cabinet, Datganiad Ysgrifenedig- Cyflog Byw'r Deyrnas Unedig yng Nghymru, 8 Tachwedd 2012 [Fel ar 1 Hydref 2013]
[10] Llywodraeth Cymru, Datganiad y Cabinet, Datganiad Ysgrifenedig ar Gyflog Byw yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Datganoledig Cymru, 30 Mai 2012 [Fel ar 10 Hydref 2013]
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Y Pwyllgor Deisebau, P-04-397 Cyflog Byw - cyfarfodydd, 16.08.2013 Gohebiaeth - Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth at y Cadeirydd (Saesneg yn unig), 24 Medi 2013 [Fel ar 10 Hydref 2013]

## 12. Pa bwerau sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu ynglŷn â'r Cyflog Byw?

Nid yw cyfraith cyflogaeth - gan gynnwys y llawr cyflogau y gellir ei orfodi drwy'r gyfraith, megis yr Isafswm Cyflog - yn un o'r meysydd sydd wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Felly, ni allai'r Cynulliad gyflwyno dim deddfwriaeth gyffredinol sy'n gorfodi cyflogwyr yng Nghymru i dalu'r Cyflog Byw.

Serch hynny, ymhlith y pynciau sydd wedi'u datganoli i Gymru mae "addysg a hyfforddiant", "llywodraeth leol" ac "iechyd a gwasanaethau iechyd". Mae hyn yn codi'r cwestiwn ynglŷn ag a allai'r Cynulliad ddeddfu i orfodi cyflogwyr i dalu Cyflog Byw i bobl sydd wedi'u cyflogi ym maes gwasanaethau addysg, llywodraeth leol a'r GIG yng Nghymru.

Byddai hyn yn dibynnu ar a fyddai Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ill dwy yn teimlo bod Bil Cynulliad penodol yn ymwneud yn bennaf â gweithredu gwasanaethau datganoledig, ynteu'n ymwneud â mater a gadwyd yn ôl, megis cyfraith gyflogaeth. Yn ei hanfod, pe bai'r ddau gorff yn methu â chytuno ynglŷn ag a oedd Bil o'r fath o fewn cymhwysedd y Cynulliad, gallai hyn fod yn fater i'r Goruchaf Lys benderfynu yn ei gylch.

Mae'n bosibl y daw hyn yn fwy eglur pan fydd y Goruchaf Lys yn penderfynu a yw *Bil Sector Amaethyddol (Cymru)* y mae'n ei ystyried ar hyn o bryd (ac sy'n ymwneud â chyflogau gweithwyr amaethyddol), yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu beidio.

Er mwyn gweld esboniad ynglŷn ag ym mha feysydd y caiff y Cynulliad greu cyfreithiau, gweler cyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil **Pwerau Deddfu'r Cynulliad**.

## 12. Beth yw hanes y Cyflog Byw yn y Cynulliad?

Fel rhan o'u maniffesto ar gyfer etholiad 2007, ymrwymodd partneriaid y glymblaid, Plaid Cymru i greu Cyflog Byw Cenedlaethol, a fyddai'n cael ei bennu gan Gomisiwn Cyflogau annibynnol yng Nghymru, y byddai gofyn i bob contractwr a geisiai am gontractau'r sector cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio ag ef.

Ym mis Hydref 2008, cyflwynodd Christine Chapman, AC Llafur Cwm Cynon, Ddatganiad Barn yn dweud bod y Cynulliad yn croesawu'r cyfraniad sylweddol y gall Cyflog Byw ei wneud i leihau tlodi drwy Gymru ac yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo Cyflog Byw yn ei holl bolisïau. Noddwyd y datganiad hwn gan 32 o blith 60 Aelod y Cynulliad.

Yn fwy diweddar, ar 15 Mai 2013, cyflwynwyd barn ysgrifenedig gan Mike Hedges AC a Mick Antoniw AC dan y teitl "Cyflog Byw - cyflog diwrnod teg am ddiwrnod teg o waith". Ategodd 13 AC arall y farn hon.[12]

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Datganiadau barn, OPIN-2013-0169 Cyflog Byw - Cyflog teg am ddiwrnod teg o waith, 14 Mai 2013 [Fel ar 10 Hydref 2013]

## 13. Beth yw'r sefyllfa yn yr Alban?

Mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud bod pob gweithiwr sy'n gweithio mewn rhannau o'r sector cyhoeddus o dan bolisi cyflogau'r Llywodraeth yn cael y Cyflog Byw fan leiaf (er nad yw Llywodraeth yr Alban yn ymddangos ar restr cyflogwyr achrededig y Sefydliad Cyflog Byw), ac fe anogodd gyflogwyr yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddilyn ei hesiampl. [13]

Mae gan Lywodraeth yr Alban reolaeth dros lefelau cyflogau'r rhan fwyaf o weision sifil yn y llywodraeth ganolog a rhai gweithwyr asiantaethau'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus anadrannol a'r GIG yn yr Alban.

Ym mis Awst 2012, cynigiodd John Park ASA Fil Aelod a oedd yn bwriadu naill ai:

> (a) ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr dalu'r Cyflog Byw i weithwyr y sector preifat sy'n gweithio ar gontractau'r sector cyhoeddus; a/neu
> (b) ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion yr Alban baratoi cynllun strategol i hyrwyddo'r Cyflog Byw ac adrodd i'r Senedd yn ei gylch.[14]

Fodd bynnag, tynnwyd y cynnig hwn yn ôl ym mis Rhagfyr 2012,

Mae Llywodraeth yr Alban wedi dweud mewn mannau eraill fod y Comisiwn Ewropeaidd, drwy ohebiaeth, wedi cadarnhau bod unrhyw ofyniad ar gontractwyr i dalu cyflog byw i'w gweithwyr sy'n uwch nag Isafswm Cyflog Cenedlaethol y Deyrnas Unedig yn debygol o dorri amodau'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.[15]

---

[13] Llywodraeth yr Alban **Government commits to £7.45 Scottish Living Wage**, 5 Tachwedd 2012 [Fel ar 8 Hydref 2013]
[14] Senedd yr Alban, **Proposed Living Wage (Scotland) Bill**
[15] Llywodraeth yr Alban, **Annex A to consultation on the Procurement Reform Bill**, Awst 2012 [Fel ar 8 Hydref 2013]

## 14. Beth mae gwleidyddion San Steffan wedi'i ddweud am y Cyflog Byw?

### *14.1. Safbwynt Llywodraeth y Deyrnas Unedig*

Ym mis Mai 2010, dywedodd David Cameron AS bod awr y Cyflog Byw wedi dod. Fodd bynnag, ers hynny, mae Llywodraeth Glymblaid y Deyrnas Unedig wedi pwysleisio y dylai'r Cyflog Byw barhau'n rhywbeth gwirfoddol, ac y dylid rhoi'r rhyddid i gyflogwyr unigol ymrwymo iddo neu beidio, fel y gwelant yn dda.

Ar 10 Mehefin 2013, gofynnodd Bob Ainsworth AS a oedd Llywodraeth y Deyrnas wedi asesu effaith cyflwyno Cyflog Byw Cenedlaethol. Dywedodd Jo Swinson AS (Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cysylltiadau Cyflogaeth, Materion Defnyddwyr a'r Post a Menywod a Chydraddoldeb) nad oes diffiniad cydnabyddedig o gyflog byw cenedlaethol ac felly nad yw wedi asesu hynny.

Dywedodd hefyd fod y Llywodraeth yn cefnogi busnesau sy'n dewis talu cyflog byw ond mai mater i weithwyr a chyflogwyr yw penderfynu pa gyflogau i'w pennu. Rhybuddiodd hefyd, er y gallai uwchraddio'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn sylweddol leihau'r nifer sy'n manteisio ar fudd-daliadau mewn gwaith pe bai'r cynnydd fesul awr yn arwain at gynnydd mewn cyflogau wythnosol, bod hyn yn debygol o effeithio er gwaeth ar gyflogaeth ac felly ar y bil lles drwyddo draw.[16]

### *14.2. Safbwynt yr wrthblaid*

Mewn araith ym mis Tachwedd 2012 fel rhan o'r Wythnos Cyflog Byw, eglurodd Ed Miliband AS ei safbwynt yntau ynglŷn â phwysigrwydd y Cyflog Byw a'r camau y gellid eu cymryd i'w roi ar waith ar raddfa ehangach yn y Deyrnas Unedig.[17] Dyma rai o'r camau hynny:

- Creu "Parthau Cyflogau Byw" lle y byddai cynghorau lleol yn annog cyflogwyr ardal benodol i dalu'r Cyflog Byw, drwy ddefnyddio cymhellion ariannol gan y llywodraeth ganolog (a fyddai ei hun yn arbed arian oherwydd y byddai'n gwario llai ar fudd-daliadau i weithwyr y Cyflog Byw);
- Defnyddio trefniadau caffael y llywodraeth ganolog i annog contractwyr i dalu'r Cyflog Byw i staff;
- Annog cwmnïau mawr i gyhoeddi nifer eu gweithwyr sy'n ennill llai na'r cyflog byw (fel y cynigiwyd gan y Resolution Foundation).

[16] **Dadl Tŷ'r Cyffredin 10 Mehefin 2013 c211W**
[17] Labour.org, **Araith Ed Miliband am y Cyflog Byw** , 5 Tachwedd 2012 [Fel ar 9 Hydref 2013]

Yn ystod Wythnos Cyflog Byw 2013, cynigiodd Ed Milliband y dylid cyflwyno contractau i "sicrhau bod gwaith yn talu" i annog cyflogwyr i ymrwymo i gynnig Cyflog Byw. O dan y cynnig hwn, am bob gweithiwr a fyddai'n cael codiad cyflog drwy roi Cyflog Byw iddo, byddai'r cyflogwr yn cael hyd at £1,000 (neu £445 ar gyfartaledd) am 12 mis, ar ffurf ad-daliad treth. [18]

[18] Independent, **Labour would give tax rebates to firms that pay living wage**, 3 Tachwedd 2013 [Fel ar 13 Tachwedd 2013]

## 15. Beth sy'n digwydd yng Nghaerefrog?

Ym mis Gorffennaf 2011, noddodd Archesgob Caerefrog (Dr John Sentamu) gorff cynghori annibynnol newydd i ymchwilio i faterion cyfiawnder cymdeithasol yng Nghaerefrog.[19] Gofynnwyd i'r "Comisiwn Tegwch" baratoi adroddiad ynglŷn â thegwch a fyddai'n gymorth i Gyngor Dinas Caerefrog wrth iddo adolygu ei flaenoriaethau ar gyfer gwariant yn 2012-2014.

Un o argymhellion yr adroddiad dilynol oedd gwneud Caerefrog yn Ddinas Cyflog Byw ac ysbrydoli Swydd Efrog i ddod yn Rhanbarth Cyflog Byw.

Mewn adroddiad wedyn yn y wasg, dywedwyd bod cyngor Dinas Caerefrog wedi dechrau talu'r cyflog byw a bod cwmni yswiriant Aviva sydd â swyddfeydd yng Nghaerefrog wedi dechrau ei dalu hefyd. Mae'r prifysgolion yn bwriadu gwneud yr un fath.[20]

Gellir darllen barn Archesgob Caergaint am y Cyflog Byw mewn **erthygl** a ysgrifennodd i bapur newydd yr Observer ym mis Gorffennaf 2013.

[19] Archesgob Caerefrog, **Fairness and Living Wage** [Fel ar 17 Hydref 2013]
[20] Guardian, **Welcome to York, the city that wants to launch a living wage**, 20 Gorffennaf 2013 [Fel ar 17 Hydref 2013]

## 16. A oes modd defnyddio polisi caffael cyhoeddus i annog pobl i ymrwymo i'r Cyflog Byw?

Fel y nodwyd uchod, mae nifer o wleidyddion - megis Ed Miliband AS a John Park ASA - wedi awgrymu y dylid defnyddio trefniadau caffael cyhoeddus i annog pobl i ymrwymo i'r Cyflog Byw. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Ewropeaidd - o leiaf yn ôl dehongliad Llywodraeth yr Alban - wedi dweud bod ei gwneud hi'n ofynnol i gontractwyr dalu cyflog byw sy'n uwch nag Isafswm Cyflog Cenedlaethol y Deyrnas Unedig i'w gweithwyr yn debygol o fod yn groes i bolisi caffael yr Undeb Ewropeaidd.

Nid yw hyn yn golygu, er hynny, na all cyrff cyhoeddus ddefnyddio polisi caffael i annog contractwyr i dalu'r Cyflog Byw i'w staff. Mae Cyngor Dinas Newcastle wedi cyhoeddi canllawiau ynglŷn â hyn, sydd ar gael yn y ddogfen **A Living Wage for Newcastle**

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio sut mae'r awdurdodau lleol hynny sy'n ceisio hyrwyddo cyflog byw drwy eu polisi caffael wedi mynd ati. Disgrifia sut y mae cyrff Awdurdod Llundain Fwyaf wedi gwneud hyn. Maent yn gofyn i gynigwyr a fyddent yn barod i dalu Cyflog Byw Llundain i'w staff, ac, os bydd y cynigydd llwyddiannus yn dweud y byddai, bydd yn ceisio cynnwys telerau priodol yn y contract dilynol.

Trafodwyd **mater y Cyflog Byw a threfniadau caffael yr Undeb Ewropeaidd** mewn erthygl ar wefan Cyfreithwyr Llywodraeth Leol, a ysgrifennwyd gan Bennaeth Caffael cwmni cyfreithwyr Dickinson Dees. Ymhlith pethau eraill, mae'r erthygl hon yn tynnu sylw at ateb a gafwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd yn 2009 a oedd yn dweud:

> Living-wage conditions may be included in the contract performance clauses of a public procurement contract 'provided they are not directly or indirectly discriminatory and are indicated in the contract notice or in the contract documents'. In addition, they must be related to the execution of the contract. In order to comply with this last condition, contract performance clauses including living-wage conditions must concern only the employees involved in the execution of the relevant contract, and may not be extended to the other employees of the contractor.[21]

---

[21] Senedd Ewrop, **Ateb a roddwyd gan Mr McCreevy ar ran y Comisiwn**, Mawrth 2009 [Fel ar 8 Hydref 2013]

## 17. Beth yw'r sefyllfa yn yr Unol Daleithiau?

Mewn sawl talaith yn yr Unol Daleithiau, rhoddir Cyflog Byw ar waith o dan y gyfraith daleithiol leol (Baltimore oedd y dalaith gyntaf i basio cyfraith o'r fath, yn 1994). Mae'r rhain yn gallu amrywio'n sylweddol o ran eu ffurf, fel yr esbonnir mewn cyhoeddiad gan felin drafod yng Ngogledd America, the Economic Polisi Institute, yn ei adroddiad yn 2006 **The economic impact of local living wages**:

> Despite having common goals, living wage laws vary considerably in practice. Most cover employees working under municipal contracts. Some also cover municipal employees, employees of businesses receiving public economic development dollars, or employees of businesses located in districts that have benefited from significant public investment. Wage levels vary from one dollar above the federal minimum wage to over twice the minimum. Some exempt nonprofit organizations, while others primarily affect human service providers.

Gan fod y mudiad Cyflog Byw yng Ngogledd America i bob golwg wedi bwrw gwreiddiau dyfnach nag y mae hyd yn hyn yn y Deyrnas Unedig, gallai fod o fudd i'r rhai sydd â diddordeb yn yr effaith a gâi polisïau tebyg yn y Deyrnas Unedig edrych ar yr astudiaethau sydd wedi'u gwneud ar effaith polisïau cyflog byw yng Ngogledd America.